



Wales
TUC
Cymru

Adferiad gwyrrdd a thrawsnewidiad cyfiawn

Adroddiad gan TUC Cymru

Amdanom

TUC Cymru yw llais Cymru yn y gwaith. Gyda 48 o undebau llafur cyswllt, rydym yn cynrychioli bron i 400,000 o weithwyr. Rydym yn ymgyrchu dros degwch yn y gwaith a chyfiawnder cymdeithasol gartref a thramor. Mae arnom eisiau i Gymru fod yn wlad o waith teg.



Cynnwys

Y datganiad hwn	4
Yr angen am drawsnewidiad cyfiawn yng Nghymru	6
Cynllun pum pwynt i sicrhau trawsnewidiad cyfiawn:	8
1. Llwybr clir wedi'i ariannu tuag at adferiad gwyrdd ac economi sero-net	8
2. Llais canolog – rhaid i drawsnewidiad cyfiawn fod yn rhan annatod o bartneriaeth gymdeithasol	10
3. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio pob ysgogiad i hybu Gwaith Teg er mwyn sicrhau bod swyddi newydd yn swyddi da	12
4. Rhaid i gyflogwyr roi gweithwyr wrth graidd eu cynlluniau trawsnewid	14
5. Dylai pob gweithiwr gael mynediad at hyfforddiant a ariennir er mwyn gwella ei sgiliau	16

Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn nodi beth rydym yn credu y mae angen iddo ddigwydd er mwyn helpu i adeiladu adferiad gwyrdd yn dilyn argyfwng Covid-19 a sicrhau trawsnewidiad cyfiawn i Gymru sero-net.

Mae adeiladu'r adferiad o'r Coronafeirws yn her a wynebir unwaith mewn cenhedlaeth. Rhaid defnyddio'r her fel cyfle i gymryd y camau sydd eu hangen ar frys er mwyn adeiladu economi wyrddach a thecach yng Nghymru - un sy'n diogelu swyddi, ein hiechyd a'r blaned. A rhaid i weithwyr gael llais canolog yn y broses o gynllunio'r adferiad a'r trawsnewidiad cyfiawn i economi sero-net er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae mudiad yr undebau llafur yng Nghymru'n cefnogi'r frwydr i ddiogelu ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac mae'n barod i wynebu her yr hinsawdd a'r argyfwng amgylcheddol. Ac rydym yn sefyll dros y gweithwyr hynny y mae eu swyddi mewn perygl os nad ydym yn cymryd camau i sicrhau bod yr adferiad a'r trawsnewidiad i economi sero-net yn gyfiawn.

Mae ar Gymru angen ysgogiad economaidd aruthrol a fydd yn diogelu swyddi ac yn hybu'r economi tuag at adferiad gwyrdd. Dylai hyn gynnwys:

- Cynllun gwarantu swyddi, yn cael ei ariannu gan lywodraeth y DU, a fydd yn darparu swyddi da ac a fydd yn cynnwys datgarboneiddio fel rhan o'i feini prawf. Dylai'r cynllun gael ei reoli a'i weithredu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr.
- Buddsoddiad i gefnogi diwydiannau y mae angen iddynt newid i fodolau sy'n rhyddhau llai o garbon. Er enghraifft, cefnogaeth ar gyfer ymchwil a datblygu er mwyn cynhyrchu dur gwyrddach.

- Buddsoddiad er mwyn sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd i ddatblygu diwydiannau gwyrdd newydd a datblygol yng Nghymru. Er enghraifft, ynni'r llanw, ynni'r môr ac ynni hydrogen.
- Rhaglen ôl-osod genedlaethol i ddatgarboneiddio stoc dai Cymru.
- Cyllid ychwanegol brys i gyflymu'r gwaith o ddatblygu seilwaith teithio carbon isel. Er enghraifft, prosiectau megis gwelliannau i'r rheilffyrdd (e.e. y metro a thrydaneiddio llinell Abertawe) a theithio llesol (llwybrau beicio a cherdded dros dro mewn trefi a dinasoedd).
- Cyllid i wella mynediad at fand eang, caledwedd digidol, meddalwedd a sgiliau digidol i gynyddu'r capasiti ar gyfer gweithio gartref a lleihau'r angen am deithio sy'n gysylltiedig â gwaith.
- Datblygu ac integreiddio cadwyni cyflenwi lleol er budd cymunedau a'r amgylchedd, gan sicrhau swyddi gwell yn nes adref.

Rhaid i ni hefyd ddysgu o'r ffyrdd newydd o weithio sydd wedi datblygu o reidrwydd oherwydd y cyfyngiadau symud. Os yw'r rhain o fudd i'r gweithwyr ac i'r amgylchedd, dylent allu parhau. Er enghraifft, gallai mwy o weithio gartref helpu pobl i arbed amser wrth deithio i'r gwaith, cael gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd a lleihau llygredd aer niweidiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi [ailddatgan ei hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol ac economaidd a chyfiawnder mewn cysylltiad â'r hinsawdd fel rhan o'r adferiad o'r Covid](#). Mae TUC Cymru yn croesawu'r datganiad hwn, a'i ymrwymiad parhaus i [gyflawni Gwaith Teg Cymru drwy bartneriaeth gymdeithasol](#).



Credwn mai'r catalydd er mwyn sicrhau adferiad gwyrddach a thecach, a llwybr at Gymru sero-net, fydd cydweithio rhwng undebau llafur, cyflogwyr, y llywodraeth a chymdeithas sifil. Bydd partneriaeth gymdeithasol a gweithredu gwaith teg yn elfen ganolog o drawsnewidiad gwirioneddol gyfiawn. Mae'r datganiad hwn yn nodi cynllun pum pwynt i sicrhau trawsnewidiad cyfiawn yng Nghymru.

Mae undebau llafur Cymru yn croesawu camau gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ond rydym hefyd yn cydnabod bod rhai ysgogiadau nad ydynt o fewn pwerau Llywodraeth Cymru.

Mae adnoddau ariannol Cymru wedi'u cyfyngu gan gyfyngiadau setliad cyllido llywodraeth y DU. Er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau benthyg ychwanegol erbyn hyn, maent yn bell o fod yn ddigon i ariannu'r

trawsnewidiad. Rydym yn cefnogi galwadau ar i Gymru gael mwy o hyblygrwydd yn ei phwerau benthyg er mwyn buddsoddi yn ei blaenoriaethau hinsawdd. Er hyn, bydd y pŵer i leihau allyriadau mewn gwahanol feysydd polisi yn parhau'n gyfuniad o bwerau sydd wedi'u datganoli'n llawn, pwerau sydd wedi'u datganoli'n rhannol, a phwerau sydd wedi'u dal yn ôl gan San Steffan.

Ni fydd Cymru yn gallu cyflawni'r trawsnewidiad hwn heb gynydd sylweddol mewn cyllid, buddsoddiad a newidiadau polisi gan lywodraeth y DU. Mae TUC Cymru yn cefnogi galwadau'r TUC yn ei [ddatganiad ar Drawsnewidiad Cyfiawn](#). Mae'r datganiad hwn yn galw ar lywodraeth y DU i ddarparu llwybr clir wedi'i ariannu tuag at economi sero-net sy'n lleihau anghydraddoldeb rhanbarthol ac yn rhoi llais canolog i weithwyr mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae mudiad yr undebau llafur yng Nghymru'n cefnogi'r frwydr i ddiogelu ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac mae'n barod i wynebu her yr hinsawdd a'r argyfwng amgylcheddol.

Yr angen am drawsnewidiad cyfiawn yng Nghymru

Mae undebau llafur yng Nghymru yn cydnabod y dystiolaeth wyddonol argyhoeddiadol sy'n dangos bod angen datgarboneiddio ein heconomi.

Yn 2018, rhybuddiodd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) mai dim ond 12 mlynedd sydd gennym i gyfyngu'r cynnydd mewn tymereddau byd-eang i 1.5 gradd. Dyma uchelgais Cytundeb Paris 2015, er mwyn atal effeithiau gwaethaf newid hinsawdd.

Mae'r mudiad undebau llafur rhyngwladol wedi galw am 'drawsnewidiad cyfiawn' i economi wyrddach, lle bydd swyddi newydd sydd cystal bob blewyn o ran cyflog, sgiliau, pensiynau a chydabyddiaeth gan undebau llafur yn cymryd lle'r rhai a gollir. Yn dilyn pwysau gan yr undebau, cafodd y cysyniad o drawsnewidiad cyfiawn ei gynnwys yn y [rhagymadrodd i Gytundeb Paris 2015](#) ac yn [Natganiad Silesia](#) yn y trafodaethau ar yr hinsawdd yn 2018.

Diolch i weithredoedd Greta Thunberg a'r mudiad streic ysgolion dros yr hinsawdd, gwelir cydnabyddiaeth gyffredinol erbyn hyn o faint yr argyfwng hinsawdd.

Ym mis Ebrill 2019, y Senedd oedd y llywodraeth gyntaf i wneud datganiad argyfwng hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais i leihau allyriadau carbon i sero-net erbyn 2050 ac i wneud sector cyhoeddus Cymru yn garbon niwtral erbyn 2030.

Gan ddefnyddio fframwaith [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#), mae Cymru wedi sefydlu dull gweithredu unigryw drwy roi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried llesiant a datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau ac yn eu gweithredu. Mae mynd i'r afael â newid hinsawdd yn elfen ganolog o'r Ddeddf ac yn

rhan annatod o'i nodau llesiant. Mae hybu 'gwaith teilwng' hefyd yn rhan allweddol o'r ddeddfwriaeth.

Dan bwerau [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\)](#), roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi gosod targedau i leihau allyriadau ac wedi pennu cyllidebau carbon pum mlynedd. Roedd y rhain yn seiliedig ar ei tharged gwreiddiol o ostyngiad o 80 y cant o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Mae hefyd wedi cyhoeddi ei [chynllun cyflawni carbon isel cyntaf](#) i nodi'r camau y bwriada eu cymryd er mwyn lleihau allyriadau a chefnogi twf economi carbon isel.

Bydd sero-net yn fwy o her i Gymru oherwydd bod ganddi gyfran fwy o allyriadau 'anos eu lleihau' o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae gan Gymru gyfran uwch o ddiwydiannau ynni-ddwys (megis gweithgynhyrchu dur, puro petroliwm a gweithgynhyrchu sment), mwy o gartrefi waliau solet a chartrefi oddi ar y grid a mwy o ffermydd bach. Mae gennym hefyd lai o safleoedd sy'n addas ar gyfer dal a storio carbon.

Yng Nghymru, mae tua un o bob pum gweithiwr yn y sectorau 'hinsawdd gritigol' y mae'r trawsnewidiad yn debygol o gael effaith fawr arnynt (gweithgynhyrchu, adeiladu, trafnidiaeth ac ynni). Y diwydiannau hyn fydd yn allweddol er mwyn sicrhau'r trawsnewidiad.

Er enghraifft, mae ein diwydiant dur yn bwysig iawn i economi'r DU yn ei chyfanrwydd ac mae ar lawer o'r technolegau newydd, gwyrddach angen dur (e.e. tyrbinau gwynt). Er bod gan rai sectorau, megis cynhyrchu pŵer a gwastraff lwybr cymharol glir i leihau allyriadau, mae eraill, megis y diwydiant dur, yn wynebu heriau mwy sylweddol. Mae dadl gref dros fuddsoddi rhagor o arian cyhoeddus i gefnogi gweithgareddau ymchwil a datblygu er mwyn cynhyrchu dur gwyrddach sy'n rhyddhau llai o garbon i'r atmosffer.



Ni ellir gadael newid yn nwylo'r farchnad yn unig. Nid grymoedd y farchnad sy'n mynd i ddarparu'r atebion i'r argyfwng hwn. Mae risg mai'r cyfan a fydd yn digwydd yw bod swyddi ynni-ddwys ac allyriadau'n cael eu hallforio dramor lle mae'r costau'n llai, a safonau amgylcheddol a safonau llafur yn is. Gallai hyn gael canlyniadau economaidd a chymdeithasol enfawr yng Nghymru, o ran colli swyddi, sgiliau a gwybodaeth a chwalu cymunedau. Nid oes arnom eisiau gweld camgymeriadau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd, a chymunedau'n cael eu gadael ar ôl o ganlyniad i newid diwydiannol.

Ond nid y sectorau hinsawdd gritigol yw'r unig rai. Mae maint y trawsnewidiad yn golygu y bydd gweithwyr ym mhob rhan o'r economi'n cael eu heffeithio. Bydd gweithwyr ym mhob sector yn cael eu heffeithio gan newidiadau a byddant yn rhan o'r ymdrechion i ddatgarboneiddio a symud Cymru i economi gylchol, ddiwastraff a fydd yn fwy cynaliadwy. Ac mae gan aelodau undebau llafur y wybodaeth a'r syniadau i helpu i sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen. Rhaid i'w lleisiau gael eu clywed yn y gweithle ac ar lefel ranbarthol, sectoraidd a chenedlaethol er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Fel mudiad, rydym hefyd yn cydnabod effeithiau newid hinsawdd ar gydraddoldeb ac iechyd. Bydd

newid hinsawdd a'i effeithiau ar yr amgylchedd yn cynyddu'r risg a achosir gan fygythiadau megis tywydd eithafol a feirysau newydd. Ac fel y mae argyfwng y Coronafeirws wedi achosi mwy o anghydraddoldeb, mae newid hinsawdd hefyd yn debygol o gael mwy o effaith ar y bobl dlotaf yn ein cymdeithas. Rhaid i ni weithredu nawr er mwyn diogelu'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed.

Ac wrth gwrs, mae hefyd yn ymwneud â chyfiawnder hinsawdd byd-eang. Mae newid hinsawdd yn effeithio ar ein brodyr a'n chwiorydd – yn enwedig ein chwiorydd – ar hyd a lled y byd. Yn 2018 yn unig, amcangyfrifir bod 17.2 miliwn o bobl wedi colli eu cartrefi oherwydd trychinebau yn gysylltiedig â newid hinsawdd mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae ffigurau'r Cenhedloedd Unedig yn dangos mai menywod oedd 80 y cant o'r rhai a gollodd eu cartrefi oherwydd newid hinsawdd.

Mae Cytundeb Paris yn nodi darpariaeth benodol ar gyfer grymuso menywod, gan gydnabod bod newid hinsawdd yn cael mwy o effaith ar fenywod nag ar ddynion. Rhaid i drawsnewidiad cyfiawn sicrhau tegwch a goresgyn yr anghyfiawnder a brofir gan bob gweithiwr - dynion a merched, hen ac ifanc, du a gwyn, yn y gogledd a'r de global.

Cynllun pum pwynt ar gyfer trawsnewidiad cyfiawn yng Nghymru:

1. Llwybr clir wedi'i ariannu tuag at adferiad gwyrdd ac economi sero-net

Mae arnom angen ysgogiad economaidd enfawr i roi hwb i adferiad gwyrdd, diogelu a chreu swyddi a thrawsnewid i economi sero-net. Po gyntaf y bydd y buddsoddiad hwn yn digwydd, po fwyaf tebygol yw hi y gallwn elwa ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y trawsnewid a sicrhau adferiad yn dilyn niwed economaidd y coronafeirws.

Rydym yn galw ar lywodraeth y DU i ariannu cynllun gwarantu swyddi sy'n darparu swyddi o ansawdd da ac sy'n cynnwys datgarboneiddio fel rhan o'i feini prawf. Yng Nghymru, dylai gael ei reoli a'i weithredu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr.

Mae ymrwymïadau Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i gynyddu gwariant ar feysydd megis teithio cynaliadwy, datgarboneiddio stoc dai Cymru a chyllid cyfalaf newydd ar gyfer yr hinsawdd a'r amgylchedd, yn dangos bod pethau'n symud i'r cyfeiriad iawn. Bydd cynlluniau megis y systemau metro newydd a sefydlu Trafnidiaeth Cymru hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o greu gwell seilwaith a lleihau allyriadau trafnidiaeth.

Ond gan fod angen adeiladu adferiad ar frys, dyma'r amser i fynd ymhellach. Gallai prosiectau ysgogiad gwyrdd gynnig llawer o fanteision byrdymor a hirdymor yn ymwneud â'r hinsawdd ac enillion i'r economi, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer gweithio gan gadw pellter cymdeithasol a gwelliannau yn ymwneud ag iechyd a llesiant. Er enghraifft, gellid cychwyn rhaglen ôl-osod genedlaethol i ddatgarboneiddio stoc dai Cymru a phrosiectau i sefydlu llwybrau beicio a cherdded dros dro mewn dinasoedd yn gyflym a chynnig manteision ar unwaith.

Gallai buddsoddiad mewn meysydd megis gwelliannau i'r rheilffyrdd, seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel a phrosiectau ynni adnewyddadwy (megis ynni'r llanw, ynni'r môr, ynni

gwynt ac ynni hydrogen), greu miloedd o swyddi da yng Nghymru a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Gallai rhoi'r prosiectau hyn ar waith helpu â'r adferiad economaidd, a rhoi sylw yn y tymor hwy i rai o'r prif rwystrau sy'n atal llesiant ac yn gwneud bywydau pobl yn anodd, megis llygredd aer niweidiol a thlodi tanwydd.

Mae arnom angen cronfa fuddsoddi i gefnogi diwydiannau y mae angen iddynt drawsnewid i fodelau sy'n rhyddhau llai o garbon a thechnoleg lanach, er enghraifft cefnogaeth i weithgareddau ymchwil a datblygu er mwyn cynhyrchu dur gwyrddach. Mae arnom hefyd angen mwy o gyllid er mwyn gwella mynediad at fand eang, caledwedd digidol, meddalwedd a sgiliau digidol i gynyddu'r capasiti ar gyfer gweithio hyblyg a lleihau'r angen am deithio sy'n gysylltiedig â gwaith.

Yn ychwanegol at hyn, dylid defnyddio cyllid a fuddsoddir mewn trawsnewidiad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac integreiddio cadwyni cyflenwi lleol. Gallai hyn fod o fudd i gymunedau ac i'r amgylchedd, gan leihau allyriadau trafnidiaeth a sicrhau swyddi gwell yn nes adref.



Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Banc Datblygu Cymru, sydd â phwyslais strategol ar gefnogi busnesau a diogelu swyddi yng Nghymru. Gall banciau datblygu chwarae rhan arweiniol yn y trawsnewidiad drwy godi safonau cymdeithasol ac amgylcheddol a chefnogi rhanbarthau allweddol a chlystyrau diwydiannol. Mae'r Banc eisoes yn darparu cyllid ar gyfer effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy a gallai chwarae rhan bwysig drwy gefnogi trawsnewidiad cyfiawn a hybu safonau gwaith teg.

Yn bennaf oll, mae ar Gymru angen llawer mwy o gyllid a buddsoddiad gan lywodraeth y DU. Hyd yn oed cyn y Coronafeirws, roedd cyllido'r trawsnewidiad yn dilyn deng mlynedd o gynni niweidiol dan lywodraeth y DU, mwy o bwysau ar ein GIG a chyfyngiadau'r grant bloc gan San Steffan yn ymddangos yn dasg amhosibl.

Mae TUC Cymru yn adleisio galwadau'r TUC ar i lywodraeth y DU roi'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflawni'r trawsnewidiad drwy system drethu flaengar. Gall Cymru wedyn dderbyn ei chyfran deg o'r buddsoddiad hwn.

Amcangyfrifodd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd y byddai trawsnewidiad a fyddai'n sicrhau gostyngiad o 95 y cant mewn allyriadau carbon yng Nghymru erbyn 2050 yn costio tua £30 biliwn (wedi'i rannu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, busnesau, y sector cyhoeddus a phobl).

Mae buddsoddiad llawer mwy gan lywodraeth y DU a newidiadau i bolisi diwydiannol y DU yn hanfodol er mwyn cefnogi'r prif ddiwydiannau carbon-ddwys yng Nghymru a'u helpu i gyflawni heriau'r trawsnewid a manteisio ar ei gyfleoedd. Mae arnom angen strategaeth ddiwydiannol a pholisi amgylcheddol yn y DU sy'n cefnogi buddsoddiad a gweithgareddau ymchwil a datblygu yn ymwneud â busnesau carbon isel. Yn ogystal, mae angen i

fframwaith rheoleiddio'r DU gefnogi trawsnewidiad cyfiawn.

Rhaid i lywodraeth y DU yn awr ddod â degawdau o danfuddsoddi hanesyddol i ben a dad-wneud methiannau'r gorffennol er mwyn cefnogi prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru. Gallai prosiectau ar raddfa fawr sy'n defnyddio ynni'r môr ac ynni'r llanw, a phrosiectau megis trydaneiddio llinell y rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe ddod â manteision mawr i Gymru o ran swyddi a'r amgylchedd. Ac mae eu hangen heddiw yn fwy nag erioed.

Ar ôl Brexit, mae arnom hefyd eisiau gweld llywodraeth y DU yn addo na fydd Cymru'n colli unrhyw gyllid pan fydd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn dod i ben ar ôl y cyfnod pontio. Rhaid i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin barchu'r setliad datganoli yn llwyr a dylai Llywodraeth Cymru gael y pŵer i benderfynu sut y bydd yn gwario'r cyllid. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dweud ei bod yn bwriadu clustnodi rhywfaint o'i chyllid tuag at y trawsnewidiad i economi sero-net.

Mae angen i lywodraeth y DU sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael yr adnoddau y mae arni ei hangen er mwyn cyflawni'r trawsnewidiad a rhoi hwb i adferiad gwyrdd. Mae arnom angen cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n amlinellu beth y byddai'n ei wneud â chyllid ychwanegol. Ac mae arnom angen eglurder ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cysoni ei chyllideb garbon a'i chyllidebau ariannol yn y dyfodol, er mwyn darparu mwy o sicrwydd ynglŷn â'r llwybr tuag at drawsnewidiad yn y tymor hwy.

2. Llais canolog – Rhaid i drawsnewidiad cyfiawn fod yn rhan annatod o bartneriaeth gymdeithasol

Rhaid i'r gweithwyr a'r undebau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y trawsnewidiad gael llais canolog yn y broses o wneud penderfyniadau am bolisi diwydiannol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd o weithio lle mae'r llywodraeth, undebau llafur a chyflogwyr yn dod at ei gilydd i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau polisi cyhoeddus a fydd yn effeithio arnynt yn eu gwaith. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai gweithwyr, drwy eu hundebau, fod wrth y bwrdd pan wneir penderfyniadau polisi a fydd yn effeithio arnynt.

Mae gan wledydd Ewropeaidd fel yr Almaen drefniadau partneriaeth gymdeithasol

llwyddiannus ers tro. Mewn gwledydd lle mae trefniadau partneriaeth gymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda maent wedi helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, creu'r amodau ar gyfer arferion gweithio tecach ac arwain at ddylunio a gweithredu atebion mwy effeithiol i broblemau diwydiannol, yn enwedig mewn cyfnod o newid.

Rhaid i Grŵp Cyngori Cyfiawnder Hinsoddol arfaethedig Llywodraeth Cymru gydnabod mandad y gweithwyr hynny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y trawsnewidiad i gael llais yn y ffordd y mae'n digwydd. Rhaid iddi gynnwys y gweithwyr, yr undebau, y diwydiannau a'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan y trawsnewidiad yn ogystal â'r rhai sydd â gwybodaeth arbenigol ynglŷn â sut i ddatgarboneiddio.



Fel sail i waith y grŵp hwn, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth o effeithiau cymdeithasol y trawsnewidiad, gan gynnwys yr effeithiau ar wahanol ranbarthau a chymunedau ac unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen.

Rydym wedi croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Gwaith Teg Cymru a'i chynlluniau i gryfhau trefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru drwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol newydd arfaethedig.

Mae'r Bil yn seiliedig ar argymhellion o adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, a argymhellodd y dylid creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol. Mae ar TUC Cymru eisiau gweld yr agenda trawsnewidiad cyfiawn yn cael lle blaenllaw yng ngwaith y Cyngor

Partneriaeth Gymdeithasol, gyda'r Grŵp Cyngori Cyfiawnder Hinsoddol yn gweithredu mewn rôl gynghorol i'r Cyngor.

Dylai trafodaethau ynglŷn â thrawsnewidiad cyfiawn hefyd fod yn rhan o unrhyw strwythurau partneriaeth gymdeithasol ar gyfer bargeinio sectoraidd yn y dyfodol fel y rhai hynny a gafodd eu cynnwys yn argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd o weithio lle mae'r llywodraeth, undebau llafur a chyflogwyr yn dod at ei gilydd i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau polisi cyhoeddus a fydd yn effeithio arnynt yn eu gwaith.



Mae ar undebau llafur yng Nghymru eisiau gweld pob swydd newydd sy'n cael ei chreu yn yr adferiad ac wrth drawsnewid i economi sero-net yn cynnig gwaith teg.

3. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio pob ysgogiad i hybu Gwaith Teg er mwyn sicrhau bod swyddi newydd yn swyddi da

Mae ar undebau llafur yng Nghymru eisiau gweld pob swydd newydd sy'n cael ei chreu yn yr adferiad ac wrth drawsnewid i economi sero-net yn cynnig gwaith teg. Ein huchelgais yw y bydd pob swydd newydd sy'n cael ei chreu ar draws yr economi o safon gyfatebol o leiaf i'r rhai sydd gan weithwyr mewn llawer o sectorau diwydiannol heddiw, ag undebau llafur yn cael eu cydnabod, a chyflog, telerau ac amodau teilwng, safonau iechyd a diogelwch uchel a phensiwn teg.

Mae TUC Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pob ysgogiad sydd ar gael i wneud Cymru yn Wlad o Waith Teg. Roedd [adroddiad Gwaith Teg Cymru](#) yn argymhell y dylid defnyddio Safon(au) Gwaith Teg Cymru fel meini prawf ar gyfer mynediad i gyllid cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Deddf Partneriaeth Gymdeithasol ac mae wedi ymrwymo i ymgorffori diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg yn yr amcanion llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae hefyd wedi ymrwymo i fabwysiadu argymhellion adroddiad Gwaith Teg Cymru i gynnwys y chwe nodwedd gwaith teg hyn yn y Contract Economaidd a'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesol mewn Cadwyni Cyflenwi:

- Gwobrwyo teg
- Llais y cyflogai a chydgyngrychiolaeth
- Sicrwydd a hyblygrwydd
- Cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen
- Amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol
- Parchu a gwireddu hawliau cyfreithiol

Er mwyn gwireddu galwadau'r undebau llafur am drawsnewidiad cyfiawn a swyddi newydd, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu holl argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg a sicrhau bod unrhyw swyddi gwyrdd newydd sy'n cael eu creu gan sefydliadau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus yn bodloni Safon(au) Gwaith Teg Cymru. Mae hyn yn cynnwys unrhyw sefydliadau sy'n derbyn cyllid fel rhan o gynlluniau gwarantu swyddi ar gyfer adferiad ar ôl Covid.

Mae angen cryfhau'r Contract Economaidd ac ymestyn ei gyrhaeddiad er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ddim ond yn cael ei chynnig ar sail 'rhywbeth am rywbeth' a bod disgwyl i sefydliadau ddangos bod eu harferion yn gwbl gydnaws â Safon(au) Gwaith Teg a'r agenda datgarboneiddio. Mae angen pwysleisio pwysigrwydd cynnig gwaith teg yn gynnwys ym mhob prosiect newydd. Bydd angen mwy o dryloywder a monitro parhaus er mwyn sicrhau bod safonau gwaith teg yn cael eu cynnal yn ymarferol.

Ledled Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd, gwyddom fod gormod o bobl ar draws yr economi ehangach nad ydynt yn mwynhau gwaith teg ar hyn o bryd. Ac mae pryder cynyddol, yng nghyswllt swyddi gwyrdd yn aml, ond hefyd yng nghyswllt cynyddu awtomeiddio a digideiddio, ynglŷn ag ansawdd swyddi newydd sy'n cael eu creu. Yn aml iawn mae'r swyddi hyn yn llai tebygol o fod mewn cwmnïau sy'n cydnabod undebau. Nid yw hyn yn bodloni'r prawf trawsnewidiad cyfiawn.

Gallai cynigion presennol llywodraeth y DU i sefydlu 'porthladdoedd rhydd' (porthladdoedd sydd y tu allan i'r rheolau arferol ar drethi, tariffau a rheoleiddio) hefyd danseilio ymdrechion i sicrhau bod swyddi newydd, gwyrdd yn cynnig gwaith teg. Mae Aberdaugleddau wedi'i nodi fel ardal allweddol ar gyfer datblygu sector ynni'r môr yng Nghymru. Mae hefyd wedi cael ei gynnig fel un o'r safleoedd ar gyfer porthladd rhydd. Mae gweithwyr mewn



porthladdoedd rhydd yn debygol o gael llai o amddiffyniad ac mae pryder y gallai porthladdoedd rhydd greu 'ras i'r gwaelod' yng nghyswllt hawliau gweithwyr. Nid oes cynrychiolwyr undebau ar banel cynghori llywodraeth y DU ar borthladdoedd rhydd.

Rhaid i'r 'economi werdd' (a thu hwnt) gydnabod undebau a bargeinio gyda nhw er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd da sydd â thelerau ac amodau cystal o leiaf â'r rhai yn y sectorau ynni, trawsnewid a charbon-ddwys.

Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ganolbwyntio ar greu swyddi lle mae eu hangen fwyaf. Rhaid i lywodraeth y DU weithredu polisi diwydiannol sy'n helpu i gynnal sail gweithgynhyrchu gref ledled y DU a sicrhau nad dim ond allforio swyddi carbon-ddwys i wledydd tramor y mae'n ei wneud.

4. Rhaid i gyflogwyr roi gweithwyr wrth graidd eu cynlluniau trawsnewid

Rhaid i'r gweithwyr a'r cymunedau ledled Cymru sy'n cael eu heffeithio gan y trawsnewidiad i economi sero-net gael llais canolog yn y ffordd y mae'r trawsnewid yn digwydd. Y lle mwyaf ymarferol i hyn ddigwydd yw ar lefel y gweithle, wrth i gyflogwyr weithio gydag undebau llafur.

Fel rydym wedi gweld yn ystod argyfwng y coronafeirws, undebau llafur yw'r ffordd orau o hyd o sicrhau bod buddiannau gweithwyr yn cael eu diogelu drwy unrhyw gyfnod o newid diwydiannol.

Dylai pob sefydliad sy'n cael ei effeithio gan y trawsnewidiad fod yn gweithio gydag undebau er mwyn datblygu cynllun trawsnewid a sefydlu cytundebau trawsnewid. Dylai'r rhain gael eu cytuno gyda'r undebau a dylent ymwneud â nifer o wahanol faterion, gan gynnwys:

- cyfanswm y swyddi neu'r gweithwyr a gyflogir
- cyflog ac amodau
- diogelu swyddi
- amser gweithio
- swydd-ddisgrifiadau
- dyletswyddau a roddir i swyddi
- hyfforddiant a sgiliau
- prentisiaethau
- polisi ymddeol
- monitro a goruchwyllo
- rheoli perfformiad
- goblygiadau iechyd a diogelwch
- cyfle cyfartal
- amser cyfleuster ar gyfer cynrychiolwyr amgylcheddol/gwyrdd undebau llafur

Dylai unrhyw arbedion a wneir o ganlyniad i ailstrwythuro diwydiannol gael eu hailfuddsoddi mewn meysydd sy'n hyrwyddo ac yn darparu swyddi newydd a gwell. Dylid cydnabod sgiliau neu gyfrifoldebau newydd drwy godiadau cyflog wedi'u negodi.

Mae gan weithwyr lawer iawn o wybodaeth a all helpu sefydliadau â thrawsnewid. Bydd yn rhaid i gwmni neu sefydliad sy'n symud o fodel seiliedig ar danwydd ffosil i system ynni sy'n rhyddhau llai o garbon, neu drawsnewid sector cyfan tuag at dechnolegau glanach, addasu prosesau penodol. Ac



Rôl y cynrychiolydd gwyrdd yw sicrhau bod ymdrechion i leihau effaith amgylcheddol sefydliad yn cael eu datblygu ar y cyd a thrwy ymgynghori'n llawn â'r gweithwyr.

yn aml iawn y gweithwyr ar lawr gwlad sydd fwyaf tebygol o ddeall sut i wneud hyn yn effeithiol.

Mae'n gwneud synnwyr i roi llais cryfach a lle mwy amlwg i weithwyr mewn amgylchiadau o'r fath. Dylai cwmnïau weithio gydag undebau er mwyn nodi a chyflawni'r ymarfer amgylcheddol gorau ar lefel y gweithle. Gellir gwneud hyn drwy gydnabod a rhoi amser cyfleuster i gynrychiolwyr 'gwyrdd' neu amgylcheddol undebau llafur, neu drwy roi amser cyfleusterau ychwanegol i gynrychiolwyr sy'n dymuno ymgymryd â'r gwaith hwn fel agwedd ychwanegol ar eu rôl.

Rôl y cynrychiolydd gwyrdd yw sicrhau bod ymdrechion i leihau effaith amgylcheddol sefydliad yn cael eu datblygu ar y cyd a thrwy ymgynghori'n llawn â'r gweithwyr. Yn aml iawn dyma'r ffordd orau o

nodi newidiadau y mae angen eu gwneud a sicrhau eu bod yn deg, yn addas i'r diben ac yn cael eu cefnogi'n llwyr gan bobl yn y gweithle.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd er mwyn atal problemau parhaus gan gynnwys newid hinsawdd. Byddai darparu amser cyfleuster i gynrychiolwyr gwyrdd yn y sector cyhoeddus datganoledig yn helpu i gyflawni'r nod hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud sector cyhoeddus Cymru yn garbon niwtral erbyn 2030 ac er mwyn i'r uchelgais hon lwyddo mae'n bwysig bod undebau'n chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu mesurau amgylcheddol newydd ar gyfer gweithleoedd.



Bydd angen i'r buddsoddiad mewn sgiliau gynyddu'n sylweddol os ydym am ddal i fyny â heriau trawsnewid i economi sero-net.

5. Dylai pob gweithiwr gael mynediad at hyfforddiant a ariennir er mwyn gwella ei sgiliau

Mae gweithwyr mewn sectorau ynni-ddwys, yn ogystal â'r rhai sy'n datblygu technolegau trawsnewid, yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd y bydd eu hangen er mwyn helpu'r sectorau hyn i drawsnewid i fodelau sy'n rhyddhau llai o garbon, ac mae'n hanfodol bod y sgiliau hyn yn cael eu cynnal. Bydd buddsoddi mewn swyddi cynaliadwy da, newydd tra'n helpu gweithwyr mewn diwydiannau carbon-ddwys i drawsnewid i'r swyddi hynny yn yr economi ehangach yn sicrhau na cholir sgiliau a phrofiad.

Bydd angen i ni hefyd ddatblygu sgiliau newydd ar draws y gweithlu ar gyfer mathau newydd o rolau. Drwy raglenni fel Cronfa Ddysgu Undebau Cymru, Cyfrifon Dysgu Personol a ReAct, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad cyson i fuddsoddi mewn sgiliau. Ond bydd angen i'r buddsoddiad mewn sgiliau gynyddu'n sylweddol os ydym am ddal i fyny â heriau trawsnewid i economi sero-net.

I fod yn fwyaf effeithiol, dylid targedu cyllid gan ddefnyddio dull triphlyg drwy bartneriaeth gymdeithasol, er mwyn sicrhau bod y system sgiliau'n cael ei harwain gan ddiwydiannau, yn hytrach na'i harwain gan gyflogwyr. Rhaid ehangu mynediad at sgiliau i weithwyr, yn unol ag argymhellion yr Adroddiad Gwaith Teg.

Yn ei chynllun cyflawni carbon isel, dywed Llywodraeth Cymru fod gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ran allweddol i'w chwarae drwy gynhyrchu gwybodaeth ranbarthol am y sgiliau sydd eu hangen. Dywed y bydd yn gweithio mewn cysylltiad agos â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn nodi'r sgiliau cysylltiedig â charbon isel sydd eu hangen ar lefel ranbarthol gan weithio gyda chyflogwyr. Mae'n dweud y gall Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol: "adolygu sectorau diwydiannol gwres-ddwys ar lefel ranbarthol a gwneud argymhellion er mwyn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella effeithlonrwydd ynni. Mae

ganddynt hefyd rôl i'w chyflawni o ran adolygu bylchau mewn sgiliau a phrinder sgiliau er mwyn helpu i sicrhau cyflenwad o ymgeiswyr sy'n meddu ar y sgiliau addas i ateb y galw am sgiliau yn y sectorau hyn."

O ganlyniad mae mewnbyn strwythuredig gan undebau i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod safbwynt y gweithwyr yn cael llais canolog yn y trafodaethau hyn ar lefel byrddau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac mewn is-grwpiau perthnasol. Mae arnom hefyd eisiau gweld yr argymhellion ar leihau allyriadau a gwella effeithlonrwydd ynni, a'r wybodaeth am sgiliau gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cael eu rhannu gyda'r Grŵp Cyngori Cyfiawnder Hinsoddol a strwythurau partneriaeth gymdeithasol ehangach, fel sail i'w gwaith.

Prentisiaethau yw'r ffordd orau o warantu rhagoriaeth sgiliau ym myd diwydiant ers blyneddau. Mae rôl undebau llafur wrth gytuno ar gynnwys ac ansawdd prentisiaethau wedi sicrhau safonau uchel cyson. Defnyddir y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol hefyd fel sail i flaenoriaethu'r gwaith o weithredu prentisiaethau a blaenoriaethau rhanbarthol yn benodol o amgylch yr agenda datgarboneiddio. Unwaith eto, mae mewnbyn strwythuredig gan undebau i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod barn y gweithwyr am brentisiaethau'n cael ei chlywed. Mae angen bwydo hyn i mewn i strwythurau partneriaeth gymdeithasol er mwyn sicrhau bod undebau'n ymwneud llawer mwy â'r gwaith o ddatblygu prentisiaethau a rhoi blaenoriaeth i ansawdd.

Mae'r system brentisiaethau, o'r camau datblygu i'r camau gweithredu, bellach yn cael ei rheoli gan Gymru. Ond mae cyflwyno'r system dalebau ardoll yn Lloegr wedi achosi rhai cymhlethdodau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol a diwydiannau er mwyn sicrhau bod



y gwaith o ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd yng Nghymru yn ymateb i anghenion trawsnewid, ac ni ddylai'r ffaith fod arbedion maint yn llai yng Nghymru, oherwydd bod nifer y dysgwyr yn llai, amharu ar hyn.

Cred TUC Cymru y bydd angen mwy o gynlluniau rhannu prentisiaeth sy'n canolbwyntio ar y gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau bod modd ateb y gofynion trawsnewid drwy gadwyni cyflenwi. Mae angen i ni weld rhagor o gefnogaeth i glystyrau o gyflogwyr rhanbarthol datblygol, lle byddai cynlluniau rhannu prentisiaeth yn effeithiol iawn er mwyn cefnogi sectorau trawsnewid datblygol, sy'n cynnwys mwy o fusnesau newydd a mentrau bach a chanolig eu maint.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi prentisiaethau pob oed. Bydd mynediad at brentisiaethau o ansawdd da i weithwyr o bob oed yn hanfodol yn ystod y cyfnod trawsnewid. Ac mae angen i ni weld mwy o waith sy'n cysylltu ysgolion â'r sector ôl-16, er mwyn annog mwy o bobl ifanc i ddilyn prentisiaethau mewn meysydd sy'n gysylltiedig â thrawsnewid. Mae arnom hefyd angen mwy o gefnogaeth i ddatblygu prentisiaethau uwch newydd a chymwysterau galwedigaethol lle mae angen y rhain.

Rydym yn cefnogi'r cynllun peilot Cyfrif Dysgu Personol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu a hoffem weld y cynllun hwn yn cael ei ymestyn er mwyn ehangu mynediad at sgiliau ar draws y gweithlu yn unol ag argymhellion adroddiad Gwaith Teg Cymru. Cam cyntaf fyddai ymestyn y cynllun Cyfrif Dysgu Personol er mwyn iddo fod yn fwy ymatebol i anghenion penodol y rhai hynny sydd mewn swyddi a sectorau trawsnewid.

Mae cyllid ymatebol ac estynedig i'r sector addysg oedolion yn hanfodol er mwyn ateb y galw am sgiliau newydd o ganlyniad i symud tuag at economi

wyrddach. Dylid sefydlu cronfa 'sgiliau ar gyfer trawsnewid', sydd wedi'i thargedu, ac sy'n cael ei hariannu'n dda. Rhaid i'r gronfa hon fod am ddim i weithwyr a dylai anelu at baratoi gweithwyr ar gyfer y trawsnewid i economi sero-net. Gallai hyn weithio ar y cyd â ffrydiau cyllido eraill, gan gynnwys WULF, ReAct a'r Cyfrifon Dysgu Personol, a gallai gynyddu eu heffaith.

Bydd arnom angen gwelliannau i wasanaethau cyngor a chyfarwyddyd i bobl sy'n gweithio, megis gwasanaeth paru â swyddi, yn gysylltiedig â chyllid sgiliau, i helpu gweithwyr i symud tuag at swyddi gwyrdd newydd a datblygol. Gellid defnyddio cynllun Cyfnod Pobl Cymru, a sefydlwyd yn wreiddiol i helpu gweithwyr yn y sector cyhoeddus y mae eu swyddi mewn perygl i drosglwyddo i rolau eraill yn sector cyhoeddus Cymru fel model ar gyfer gwasanaeth paru â swyddi ehangach.

Yn ogystal â dysgu yn y dosbarth, mae profiad yn bwysig hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae'n bosibl nad yw prosesau mewn rhai gweithleoedd yn y sector ynni yn digwydd yn aml. Dylid cydnabod gwerth profiad gweithwyr sy'n trosglwyddo i swyddi newydd.

Bydd cyllid i wella mynediad at fand eang, caledwedd digidol, meddalwedd a sgiliau digidol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn ddigon hygyrch a hyblyg i ddiwallu anghenion pawb sy'n gweithio.

Ac mae ar y rhai sydd wedi gadael gwaith angen cefnogaeth system nawdd cymdeithasol deilwng i sicrhau bod ganddynt arian i dalu eu costau byw tra maent yn hyfforddi.

Mae undebau llafur wedi ymladd ers blynnyddoedd dros swyddi, hawliau a chyflogau eu haelodau, a thros economi sy'n rhoi gwaith teg i bawb sydd ei angen. Mae tystiolaeth gref bod undebau yn dda i weithwyr ac yn dda i'n heconomi.

Credwn mai gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth gymdeithasol sy'n cynnig y siawns orau o drawsnewidiad cyfiawn, gan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y datganiad hwn. Rhaid i ni gyflawni'r her o sicrhau adferiad a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gan sicrhau gwell dyfodol i Gymru.





Cyhoeddwyd gan Gyngres Undebau Llafur Cymru

Mehefin 2020

1 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9SD

wtuc.org.uk

Cysylltwch â: Jo Rees jrees@tuc.org.uk 029 2034 7010

Dyluniwyd gan Frank Duffy www.frankduffy.co.uk

Lluniau gan kupicoo, Drazen Zigic, kali9, FG Trade, SolStock,
sturti, serts, skynesher, monkeybusinessimages